

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad Assembly Commission Audit & Risk Assurance Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Dyddiad: 3 Chwefror 2014
Amser: 11.00 – 13.00
Lleoliad: Ystafell gynadledda 4B, Tŷ Hywel



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2014

Yn bresennol:

Aelodau

Eric Gregory (Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor)
Keith Baldwin (Cynghorydd Annibynnol ac Aelod Pwyllgor)
Hugh Widdis (Cynghorydd Annibynnol ac Aelod Pwyllgor)
Angela Burns (Aelod Cynulliad a Chomisiynydd)

Swyddogion

Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu
Dave Tosh, Cyfarwyddwr TGCh
Steve O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a'r Cyfarwyddwr Cyllid
Kathryn Hughes, Rheolwr Risg a Chlerc
Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol
Vicky Davies, TIAA
Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru
Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru
Buddug Saer, Ysgrifenyddiaeth
Eitem 11 - Sarah Dafydd, Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Item 1 – Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Gareth Watts, y Pennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.
- 1.2 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.
- 1.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm clericio am gyhoeddi papurau cynhwysfawr mewn modd amserol. Nododd hefyd fod hon yn agenda lawn ac y dylai'r rhai sy'n cyflwyno eitemau dynnu sylw at y pwyntiau allweddol yn eu papurau, gan ddangos yn glir yr hyn y maent yn ei geisio gan aelodau'r Pwyllgor.

2.0 Cofnodion a materion yn codi

Eitem 2- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, y camau i'w cymryd a'r materion sy'n codi

- 2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd eu cytuno y tu allan i'r cyfarfod gan gadeirydd blaenorol y Pwyllgor, Richard Calvert.
- 2.2 Trafododd aelodau'r pwyllgor y camau gweithredu a oedd yn weddill o gyfarfodydd blaenorol. Cytunodd y swyddogion i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod mis Ebrill ar y camau sy'n ymwneud â goblygiadau cost polisiau anhygyrch (fel rhan o'r ystyriaethau gwerth am arian) a gweithdrefnau fetio diogelwch.

3.0 Archwilio Mewnol

Eitem 3 – Adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol

Eitem 4 – Monitro argymhellion Archwilio Mewnol

Eitem 5 - Strategaeth Archwilio Mewnol Arfaethedig a Chynllun

Gwaith Achlysurol

- ACARAC (21) Papur 2a - Adroddiad cynnydd y pennaeth archwilio mewnol
 - ACARAC (21) Papur 2b - Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol
 - ACARAC (21) Papur 2c - Strategaeth Archwilio Mewnol Diwygiedig 2013-16
- 3.1 Disgrifiodd Gareth Watts sut, ers ei benodiad, y bu'n gweithio ar y cyd gyda TIAA (darparwr allanol gwasanaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn), a rhanddeiliaid allweddol o fewn y Comisiwn i gynllunio a chyflwyno'r rhaglen archwilio mewnol. Roedd yn falch o adrodd nad oedd ganddo unrhyw bryderon yr oedd angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt, a mynegodd ei farn fod y Comisiwn yn cymryd ei threfniadau llywodraethu o ddifrif. Bydd yn parhau i weithio gyda TIAA a swyddogion eraill i sicrhau y cyflawnir y rhaglen waith a gynlluniwyd.
 - 3.2 Fel y nodir ym mhapur 2a, Dywedodd Gareth bod cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio mewnol 2013-14 ar y trywydd iawn, gyda gwaith cwmpasu ar y gweill ar gyfer gwaith archwilio rhagorol. Hefyd, roedd ymarfer yn mynd rhagddo i bennu'r cwmpas ar gyfer archwiliad o weithdrefnau recriwtio'r Comisiwn yn dilyn cais gan y Prif Weithredwr. Bydd gwaith maes ar hyn yn dechrau maes o law.

- 3.3 Dywedodd Gareth wrth y Pwyllgor y byddai ef a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno protocol gwaith a oedd yn cael ei ddatblygu ar y cyd â TIAA yn y cyfarfod nesaf.
- 3.4 Cyflwynodd Gareth bapur 2b a oedd yn crynhoi statws argymhellion archwilio mewnol blaenorol. Tynnodd sylw at ddau argymhelliad y byddai'n parhau i fonitro, er nad oedd yn ystyried bod y rhain yn cynrychioli lefel annerbyniol o risg i'r Comisiwn.
- 3.5 Yna cyflwynodd Gareth papur 2c. Roedd Atodiad y papur hwn yn fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2013-16. Roedd y strategaeth wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu heriau newid ar gyfer y Comisiwn. Roedd yn cynnwys nifer o feysydd i'w cynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2014-15, gan gynnwys ffocws ar reoli rhaglenni a phrosiectau.
- 3.6 Gwnaeth aelodau'r Pwyllgor sylwadau ar ddefnyddioldeb yr adroddiad monitro argymhellion, a gofynnodd i Gareth i sicrhau bod argymhellion yn cael eu hesbonio'n glir.
- 3.7 Cytunodd Gareth i roi ystyriaeth bellach i waith archwilio ychwanegol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Fusnes i'w gynnwys mewn fersiwn diwygiedig o Gynllun Archwilio 2014-15, a fyddai'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Ebrill.
- 3.8 Diolchodd y Cadeirydd i Gareth am ei ddiweddariad cynhwysfawr.

Camau Gweithredu

- Gareth i ddarparu mwy o fanylion am argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill yng nghyfarfodydd y dyfodol. Cynnwys y cynnydd yn erbyn dyddiadau targed y cytunwyd arnynt gyda noddwyr.
- Gareth i fireinio'r Strategaeth Archwilio Mewnol a chyflwyno cynllun 2014-15 yng nghyfarfod mis Ebrill.

Eitem 6 - Yr adroddiad archwilio mewnol diweddaraf

- ACARAC (21) Papur 2d - Cynllunio Parhad Busnes yn y Cynulliad (TIAA)
- 3.9 Cyflwynodd Vicky Davies o TIAA yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Gynllunio Parhau Busnes Roedd hwn yn adolygiad cwmpas llawn a chadarnhaodd Vicky y bu cydweithrediad da gan staff y Comisiwn. Roedd yr adolygiad wedi arwain at farn "boddhaol", gyda chynnydd yn

cael ei wneud ar y chwe argymhelliad allweddol a nodwyd yn yr adolygiad blaenorol ym mis Hydref 2013. Mae'r gwaith i ddatblygu cynlluniau parhad busnes y Comisiwn yn parhau i gael eu gyrru gan y Rheolwr Parhad Busnes, gyda chymorth arbenigwr parhad busnes o Gyngor Caerdydd.

- 3.10 Roedd aelodau'r Pwyllgor yn holi ynghylch a oedd y graddfeydd amser ar gyfer profion senario yn realistig o ystyried faint o gynllunio sydd ei angen, ac a oedd ystyriaeth wedi cael ei roi i ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn yr ymarferion a gynlluniwyd.
- 3.11 Crybwyllodd Claire Clancy bod Senedd yr Alban yn bwriadu ymgysylltu â'i Haelodau eleni er mwyn iddynt ymrwymo i'w cynlluniau parhad busnes.
- 3.12 Roedd Steve O'Donoghue yn falch gyda chanfyddiadau'r adroddiad archwilio a dywedodd wrth y Pwyllgor bod yr adnodd pwrpasol ar gyfer parhau gyda'r gwaith parhad busnes wedi cael ei symud i'w gylch gwaith ef. Cadarnhaodd fod prawf yn defnyddio Siambr Hywel ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ebrill. Mynegodd Vicky hyder bod y Rheolwr Parhad Busnes yn hynod wybodus ac yn gallu cyflwyno yn unol â'r amserlen. Cytunwyd bod cynllun cyfathrebu yn hanfodol a chadarnhaodd Steve fod hyn yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y gwaith parhad busnes.
- 3.13 Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad pan fydd y cofnodion yn cael eu dosbarthu.

Cam i'w gymryd

- Gareth a Steve i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r adroddiad Archwilio Mewnol ar barhad busnes ac i gynnwys hyn fel atodiad (yn benodol, manylion ynghylch cwblhau cynlluniau parhad busnes ar lefel gwasanaeth).
 - ACARAC (21) Papur 2e - Rheoli Ystadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Contract Rheoli Cyfleusterau (TIAA)
- 3.14 Cyflwynodd Vicky adroddiad Archwilio Mewnol ar y Contract Rheoli Cyfleusterau. Roedd hwn yn adolygiad cwmpas cyfyngedig a arweiniodd at farn "rhesymol". Amlygodd yr adolygiad, er nad yw'r defnydd o wybodaeth am berfformiad a ddarperir gan y contractwr yn ddelfrydol, roedd rheolaethau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth yn

cael ei herio'n ddigonol. Roedd hefyd digon o reolaethau i herio adroddiadau dadfeilio cyn i unrhyw waith gael ei wneud.

- 3.15 Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor am amseroldeb yr adolygiad hwn, cadarnhaodd Claire fod Mike Snook wedi nodi hwn fel maes o wendid yn fuan ar ôl iddo gymryd y cyfrifoldeb am Reoli Cyfleusterau. Ychwanegodd Claire fod y dull arferol o gyfeirio archwiliadau i ardaloedd gwan a nodwyd wedi cael ei fabwysiadu, a oedd wedi arwain at yr archwiliad hwn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2013-14.
- 3.16 Nodwyd hefyd bod y contract wedi cael ei ddyfarnu, a bod y dull o fonitro perfformiad y contract wedi cael ei ddatblygu cyn y gwelliannau sylweddol i gaffael a gweithdrefnau rheoli contract sydd wedi cael eu cyflwyno ers penodi'r Pennaeth Caffael.
- 3.17 Cytunwyd y byddai diweddariad ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a'u heffeithiolrwydd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cam i'w gymryd

- Steve O'Donoghue a Mike Snook i ailedrych ar y contract rheoli cyfleusterau mewn perthynas â gweithredu ac effeithiolrwydd argymhellion archwilio mewnol fel rhan o'r gwaith archwilio dilynol yn y dyfodol.

Eitem 7 – Adroddiad dilynol Archwilio Mewnol

- ACARAC (21) Papur 2f - Adroddiad archwilio mewnol dilynol
- 3.18 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd Gareth i fireinio manylion ar olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion sy'n weddill mewn pryd ar gyfer y cyfarfod ym mis Ebrill.

4.0 Archwilio Allanol

Eitem 8 - Amlinelliad Archwilio ar gyfer Datganiadau Ariannol 2013-14

- ACARAC (21) Papur 3 - Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol Terfynol (SAC)

- 4.1 Diolchodd y Cadeirydd i Mark Jones a Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru, am eu papur a gofynnodd iddynt i amlygu unrhyw bwyntiau penodol o fanylder.
- 4.2 Nododd Mark bod y risgiau a amlinellwyd yn safonol ar gyfer archwilio cyfrifon yn gyffredinol, yn hytrach nag unrhyw risgiau penodol ar gyfer cyfrifon y Comisiwn. Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor, yn ogystal â'r archwilio safonol o dreuliau Aelodau, eu bod wedi cael cais i gynnal archwiliad sampl o daliadau i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Byddai hyn yn canolbwyntio ar y gwiriadau a'r rheolaethau sydd ar waith pan fydd yr hawliadau hyn yn cael eu prosesu.
- 4.3 Nodwyd bod y gwaith a drefnwyd ar archwiliad o brosiect yr adran Adnoddau Dynol a'r Gyflogres wedi'i ohirio tan fis Ebrill, oherwydd materion o ran adnoddau o fewn y Comisiwn. Ychwanegodd Steve O'Donoghue fod cam cyntaf y prosiect Adnoddau Dynol a Chyflogres wedi cael ei roi ar waith a bod adnoddau yn canolbwyntio ar reoli'r system newydd o ddydd i ddydd, yn ogystal â datblygu cam nesaf y prosiect. Bydd y buddion a'r arbedion yn cael eu gwerthuso ym mis Tachwedd 2014, un flwyddyn ar ôl y dyddiad cyflwyno.
- 4.4 Dywedodd Richard Harries wrth y Pwyllgor na fyddent mewn sefyllfa i ddarparu manylion am y ffioedd archwilio tan y cyfarfod ym mis Ebrill gan nad oedd y rhain wedi cael eu cytuno ar draws y sector cyhoeddus eto. Mewn ymateb i gwestiynau am brisiad ystad y Comisiwn, sicrhodd Swyddfa Archwilio Cymru aelodau'r Pwyllgor bod y cwmni a ddefnyddir yn bodloni safonau archwilio ac nad oedd ganddynt unrhyw bryderon.

Eitem 9 - y diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru ar unrhyw faterion eraill

- Eitem lafar
- 4.5 Cyfeiriodd Mark Jones at ei bresenoldeb mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Rheoli i amlinellu'r hyn y byddent yn chwilio amdano mewn Datganiad Llywodraethu da. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu eu barn ac yn credu bod y dull cydweithredol hwn wedi gweithio'n dda. Canmolodd y Cadeirydd y dull hwn fel enghraifft dda o weithio ar y cyd.

5.0 Dull llywodraethu Comisiwn y Cynulliad

Item 10 – Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol

- ACARAC (21) Papur 4a - Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol
 - ACARAC (21) Papur 4a Atodiad A - Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol
 - ACARAC (21) Papur 4a Atodiad B - Risgiau Corfforaethol wedi'u plotio
- 5.1 Cyflwynodd Steve y papur, gan roi gwybod i'r Pwyllgor bod y risgiau corfforaethol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Bwrdd Rheoli, lle trafodwyd yr angen i gael tystiolaeth gryfach ar gyfer dileu risgiau oddi ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Fel rhan o'u gwaith cynllunio rheolaidd, bu'r Bwrdd Rheoli hefyd yn trafod risgiau ynghylch effaith y Comisiwn Silk a chynllunio ar gyfer etholiadau'r Pumed Cynulliad, ond roedd yn teimlo nad oedd angen ychwanegu risgiau o'r fath at y gofrestr eto, oherwydd bod cynlluniau ar y gweill i ymdrin â nhw.
- 5.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor am y broses o adnabod a chael gwared ar risgiau corfforaethol, esboniodd Claire bod penderfyniad wedi cael ei wneud i ganiatáu ffocws ar risgiau yr oedd angen eu rheoli yn weithredol, ac yn fuan iawn, ar lefel uwch. Yn ogystal â'r Bwrdd Rheoli yn nodi risgiau allweddol, ychwanegodd bod meysydd gwasanaeth unigol hefyd yn casglu risgiau o ran cyflawni eu hamcanion gwasanaeth, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yna roedd risgiau allweddol sylweddol, neu risgiau sy'n dod i'r amlwg, yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rheoli i'w cynnwys ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.
- 5.3 Cytunodd y Cadeirydd ar bwysigrwydd proses gydlynol, h.y. risgiau yn deillio o'r Bwrdd Rheoli yn ogystal ag ar lefel gwasanaeth neu Fwrdd Buddsoddi, ac adolygiad rheolaidd o'r risgiau. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r risgiau o gwmpas y prosiect Gwasanaethau TGCh yn y Dyfodol ymhellach yng nghyfarfod mis Ebrill.

Cam i'w gymryd

- Tîm clericio i sicrhau bod trafodaeth ar risg y prosiect Trosglwyddo TGCh yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Ebrill.

Eitem 11 - Archwiliad beirniadol o un risg a nodwyd

- ACARAC (21) Papur 4b - Ystyried risg yn ymwneud â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol (TRS6)
- ACARAC (21) Papur 4b Atodiad A - Cynllun Ieithoedd Swyddogol

- 5.4 Rhoddodd Claire a Sarah Dafydd rywfaint o gefndir i'r Pwyllgor i'r eitem hon. Cafodd y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol ei phasio yn 2012 a chafodd y cynllun ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn 2013. Roedd y cynllun yn uchelgeisiol iawn ac roedd yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ar y cynnydd erbyn mis Gorffennaf 2014. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei gyflawni, yn enwedig o ran gwasanaethau wedi'u teilwra a gynigir gan Wasanaeth y Pwyllgorau a'r Gwasanaeth Ymchwil. Bydd cyfleuster cyfieithu peirianyddol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Microsoft, yn cael ei lansio ddiwedd mis Chwefror. Ni fydd y peiriant cyfieithu yn hollol gywir o'r diwrnod cyntaf, ond bydd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn darparu gwasanaeth gwirio testun cyfieithu peirianyddol, yn ychwanegol at y gwasanaethau eraill y mae'n eu darparu. Dros y misoedd nesaf, bydd archwiliad sgiliau iaith yn cael ei gynnal i nodi meysydd ar gyfer ymdrech ddwys. Roedd y contract hyfforddiant iaith Gymraeg hefyd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus o hyfforddiant ar gyfer staff y Comisiwn yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.
- 5.5 Fe wnaeth aelodau'r pwyllgor ddymuno'n dda i'r Comisiwn gyda'r cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gweithredu'r cynllun, yn enwedig o ystyried yr amserlenni a chyfyngiadau posibl cyfieithu peirianyddol. Fe wnaethon nhw hefyd annog swyddogion i reoli disgwyliadau'r holl randdeiliaid a chynnwys eu hadborth yn adroddiad cynnydd mis Gorffennaf, ac i sicrhau bod y Cyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol yn cael eu briffio'n llawn fel eu bod yn teimlo bod eu rôl yn hanfodol.
- 5.6 Diolchodd Claire i aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau ac roedd yn ymwybodol o'r risgiau i enw da'r sefydliad sy'n ymwneud â gweithredu'r cynllun hwn. Soniodd hefyd am yr adolygiad a drefnwyd o Gofnod y Trafodion gan Gomisiwn y Cynulliad, a allai arwain at ddatblygiadau newydd pellach.

Eitem 12 - Hyrwyddo cydweithrediad rhwng archwilwyr a chyrrff adolygu eraill

- Eitem lafar
- 5.7 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon ac eglurodd rôl y Pwyllgor o ran hyrwyddo cydweithrediad rhwng archwilwyr a chyrrff adolygu eraill. Roedd yn cydnabod bod gan y Comisiwn eisoes gysylltiadau gyda darparwyr eraill o sicrwydd, fel Buddsoddwyr mewn Pobl, ond

gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried pwy arall y gallent gydweithio â hwy. Byddai'r eitem yn cael ei hailystyried yng nghyfarfod mis Ebrill.

Eitem 13 - Barn archwilio allanol ynghylch effeithiolrwydd y pwyllgor

- Eitem lafar

Eitem 14 - Ystyried effeithiolrwydd y pwyllgor

- ACARAC (21) Papur 4C - Effeithiolrwydd y Pwyllgor
- ACARAC (21) Papur 4C Atodiad A - Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad: adroddiad hunan-arfarnu o arolwg 2012

- 5.8 Cytunwyd y dylai Swyddfa Archwilio Cymru gynnal yr arolwg o effeithiolrwydd y Pwyllgor am y rhesymau a amlinellwyd yn y papur eglurhaol. Byddai swyddogion y Cynulliad yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu'r cwestiynau a gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor gyflwyno eu cwestiynau posibl i'r tîm clerco. Byddai'r cwestiynau ar gyfer yr arolwg gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Ebrill a bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin .
- 5.9 Mynegodd y Cadeirydd bwysigrwydd cyfradd gwblhau 100%, a'r defnydd o naratifau mewn ymatebion yn ogystal â'r ystadegau.
- 5.10 Amlygodd Angela Burns y cyfle ar gyfer adborth 360, a chytunwyd y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i gynnal ymarfer adborth 360 gradd i ychwanegu at ganlyniadau'r arolwg.

Camau Gweithredu

- Aelodau'r pwyllgor i gyflwyno i'r clerco gwestiynau posibl y byddent yn hoffi eu cynnwys yn yr arolwg effeithiolrwydd.
- Byddai'r cwestiynau ar gyfer yr arolwg gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Ebrill a bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin .
- Steve i ystyried adborth 360 gradd fel rhan o werthuso effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Eitem 15 - Trafod materion yn ymwneud â pharatoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor

- Eitem lafar

5.11 Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor adolygu fframwaith y ddau adroddiad blynyddol blaenorol (i'w cylchredeg) ac i roi awgrymiadau i'r tîm clericio ar feysydd o bwyslais ar gyfer yr adroddiad 2013-14 erbyn diwedd mis Chwefror. Yna bydd y tîm yn llunio adroddiad blynyddol drafft ym mis Mawrth, mewn pryd ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Ebrill.

Camau Gweithredu

- Y tîm clericio i gylchredeg linc i'r Adroddiadau Blynyddol blaenorol i aelodau'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.
- Aelodau'r Pwyllgor i adolygu fframwaith yr Adroddiad Blynyddol (dolen i gael ei ddsbarthu) a darparu sylwadau ar feysydd o bwyslais erbyn diwedd mis Chwefror.

Eitem 16 - Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor

- ACARAC (21) Papur 4d - Cylch gorchwyl diwygiedig y pwyllgor
- ACARAC (21) Papur 4d Atodiad A - Cylch Gorchwyl ACARAC(Chwefror 2014)

5.12 Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl, yn amodol ar un newid bach a nodwyd gan Keith Baldwin, sef dileu'r cyfeiriad at gyfarwyddwyr anweithredol gan nad oedd hyn yn berthnasol.

Cam i'w gymryd

- Tîm clericio i adolygu a chyhoeddi cylch gorchwyl diwygiedig cyn gynted ag y bo modd.

Eitem 17 - Adolygiad o fframwaith sicrwydd Comisiwn y Cynulliad

- ACARAC (21) Papur 4e - Fframwaith Sicrwydd Comisiwn y Cynulliad
- ACARAC (21) Papur 4e - Atodiad A - Fframwaith Sicrwydd Comisiwn y Cynulliad

5.13 Cyflwynodd Steve O'Donoghue y papur a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y dull o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd ffurfiol ar gyfer y Comisiwn ac i rannu profiadau a allai fod ganddynt mewn sefydliadau eraill.

- 5.14 Cytunodd aelodau'r pwyllgor â'r dull a nododd bod y Comisiwn yn dechrau o sefyllfa gref o ran nodi a chasglu ffynonellau o sicrwydd. Roedd Hugh yn annog swyddogion i beidio â dibynnu'n ormodol ar fodelau eraill gan fod angen canolbwyntio ar yr hyn fyddai'n gweithio orau ar gyfer y Comisiwn.
- 5.15 Diolchodd y Cadeirydd i Kathryn Hughes am arwain y gwaith hwn a chytunwyd y byddai fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli.

Cam i'w gymryd

- Y tîm clericio i gylchredeg y fframwaith sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth pan gaiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli.

6.0 Eitemau eraill

Eitem 18 - Crynodeb o'r ymadawiadau

- ACARAC (21) Papur 5a - Crynodeb o'r ymadawiadau

- 6.1 6.1 Nodwyd tri achos o ymadael â'r gweithdrefnau caffael arferol.

Eitem 19 - Blaenraglen waith ACARAC

- ACARAC (21) Papur 5b - Blaenraglen waith

- 6.2 Ystyried amserlennu blaenraglen waith tymor hwy cyn y cyfarfod nesaf.

Eitem 20 - Polisi Cyfrifyddu Asedau

- ACARAC (21) Papur 5c - Rheoli Asedau o fewn y Comisiwn
- ACARAC (21) Papur 5c Atodiad A - Rheoli Asedau o fewn y Comisiwn
- ACARAC (21) Papur 5c Atodiad B - Rheoli Asedau o fewn y Comisiwn

- 6.3 Cyflwynodd Steve y papur hwn fel papur i'w nodi, yn dilyn cais gan y Pwyllgor am fanylion pellach ar y polisi cyfrifyddu asedau yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2013.

- 6.4 Diolchodd y Pwyllgor Steve am y diweddariad, a oedd yn glir ac yn ddefnyddiol.

Diwedd y cyfarfod

7.1 Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am eu papurau, eu cyfraniadau a'u cwestiynau.

8.0 Sesiwn breifat

8.1 Mynychwyd sesiwn breifat gan Swyddfa Archwilio Cymru ac aelodau'r pwyllgor Nid oedd swyddogion y Cynulliad yn bresennol ac ni chymerwyd cofnod.